

Sut i ymddwyn wrth wneud cwyn

Beth rydyn ni'n ei wneud os ydy
ymddygiad rhywun yn annerbyniol

Comisiynydd y Gymraeg sydd wedi ysgrifennu'r ddogfen yma. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Polisi Comisiynydd y Gymraeg ar Ymddygiad Annerbyniol gan Achwynwyr'.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei ddeall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgriflen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 17**.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Comisiynydd y Gymraeg**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: www.comisiynyddygyymraeg.cymru

E-bost: post@cyg-wlc.cymru

Ffôn: 0345 6033 221



Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. [I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.](#)

[Rhif trwydded Photosymbols 403527247](#)

Cynnwys

Amdanon ni	4
Am y polisi yma	6
Beth ydy ymddygiad annerbyniol.....	8
Bod yn ymosodol neu'n sarhaus.....	10
Gofyn i ni wneud rhywbeth dydyn ni ddim yn gallu ei wneud..	10
Pan fyddwch chi'n dal i ofyn yr un peth	11
Beth rydyn ni'n ei wneud pan fydd ymddygiad rhywun yn annerbyniol	12
Cyfyngu ar gysylltiad	13
Pan fydd rhywun yn anghytuno	15
Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf.....	16
Cadw gwybodaeth.....	16
Cysylltwch â ni.....	17
Geiriau anodd	18

Amdanon ni



Ni yw'r tîm sy'n gweithio gyda ac ar ran **Comisiynydd y Gymraeg**.



Comisiynydd y Gymraeg yw'r person sy'n sefyll dros yr iaith Gymraeg.



Ein prif nod yw helpu mwy o bobl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.



Rydyn ni'n gwneud hyn trwy ddweud wrth bobl bod yr iaith Gymraeg yn bwysig yng Nghymru.



Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod sefydliadau yn dilyn y rheolau ynglŷn â sut i ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Bydd hyn yn helpu siaradwyr Cymraeg i gael mwy o hawliau.

Y ddau brif syniad sy'n bwysig yn ein gwaith yw:



1. Ni ddylai'r iaith Gymraeg gael ei thrin yn waeth na'r iaith Saesneg yng Nghymru.



2. Dylai pobl yng Nghymru fedru defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu bywydau os ydyn nhw eisiau.

Am y polisi yma



Mae'r polisi yma yn dweud sut fyddwn ni'n delio â phobl sy'n ymddwyn mewn ffyrdd **annerbyniol** wrth wneud **cwyn**.



Mae **annerbyniol** yn meddwl rhywbeth sy'n anghywir ac na ddylid ei wneud.



Cwyn ydy pan fyddwch chi'n dweud wrth sefydliad neu berson eu bod wedi gwneud rhywbeth o'i le.



Mae hyn yn **cynnwys** cwynion sydd yn cael eu gwneud am:

- Defnydd sefydliad neu unigolyn o'r Gymraeg.




Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

- Ein gwaith ni.



Mae'r daflen yma yn esbonio:

- Beth rydyn ni'n feddwl ydy ymddygiad **annerbyniol**.
- Beth fyddwn ni'n ei wneud os ydy ymddygiad rhywun yn **annerbyniol**.



Rydych chi'n gallu darganfod sut i wneud **cwyn** i ni yn ein taflen o'r enw **Gwneud Cwyn am Gomisiynydd y Gymraeg**.



Mae rhai **cwynion** am sefydliadau ddylai fod yn dilyn **Safonau'r Gymraeg**.



Ar gyfer y mathau yma o **gwynion** darllenwch ein **Polisi Gorfodi** hefyd.

Beth ydy ymddygiad annerbyniol



Os ydych chi'n **cwyno** wrthym ni, mae gennych chi yr hawl i deimlo pethau fel:

- blin
- ypset
- siomedig
- neu'n ddig.



Pan fyddwch chi'n **cwyno** wrthym ni, rydych chi'n gallu:

- Dweud sut rydych chi'n teimlo.
- Disgwyl i ni ddelio â'ch **cwyn**.



Disgwyliwn i'n staff gael eu trin â charedigrwydd a pharch.



Mae yna rai pethau sy'n **annerbyniol**. Mae'r rhain yn bethau fel:

- Bod yn **ymosodol** neu'n **sarhaus**.

Mae **ymosodol** yn meddwl pan fydd rhywun yn barod neu'n debygol o fod yn dreisgar oherwydd dicter.

Mae bod yn **sarhaus** yn meddwl peidio dangos parch at rywun.

- Gofyn i ni wneud rhywbeth dydyn ni ddim yn gallu ei wneud.
- Dal ati i ofyn yr un peth.
- Peidio derbyn ateb rydyn ni wedi ei roi.

Bod yn ymosodol neu'n sarhaus



Mae hyn yn cynnwys pethau fel:

- Anafu rhywun.
- Bygwth anafu rhywun.
- Dweud neu ysgrifennu rhywbeth sy'n gwneud i rywun deimlo'n ofnus.
- Galw enwau ar rywun.
- Dweud celwydd am rywun.

Gofyn i ni wneud rhywbeth dydyn ni ddim yn gallu ei wneud



Mae hyn yn cynnwys pethau fel:

- Gofyn i ni ymateb neu ddatrys pethau'n gyflymach nag sy'n bosibl.
- Gofyn i ni roi gwybodaeth breifat i chi.
- Gofyn i siarad â rhywun sydd ddim yn gysylltiedig neu sydd ddim ar gael.



- Newid eich meddwl am beth ydy eich **cwyn**.
- Cwyno am rywbeth sydd ddim i'w wneud â'n gwaith.



Mae'r pethau yma yn afresymol pan fyddan nhw yn cymryd gormod o'n hamser. Ac yn ein stopio rhag gwneud ein gwaith.

Pan fyddwch chi'n dal i ofyn yr un peth



Mae gofyn am yr un peth neu beidio â derbyn ateb yn gallu bod yn **annerbyniol**. Mae hyn yn cynnwys pethau fel:

- Gwneud yr un **gŵyn** dro ar ôl tro heb unrhyw wybodaeth newydd.
- Gwrthod derbyn esboniad.
- Gwrthod derbyn penderfyniad rydyn ni wedi'i wneud ynglŷn â **chŵyn**.

Beth rydyn ni'n ei wneud pan fydd ymddygiad rhywun yn annerbyniol



Ychydig iawn o bobl sy'n **cwyno** sy'n gwneud pethau sy'n **annerbyniol**.



Fe fydd beth fyddwn ni'n ei wneud yn dibynnu ar yr ymddygiad.



Os ydy eich ymddygiad yn **annerbyniol**, efallai na fyddwn ni yn gadael i chi gysylltu â ni mewn ffordd benodol. Er enghraifft:


- Trwy ysgrifennu i ni.
- E-bostio ni.
- Ffonio ni.
- Neu ddod i gyfarfod â ni.



Mae hyn yn cael ei alw yn **gyfyngu ar gysylltiad**.

Cyfyngu ar gysylltiad ydy pan fyddwn ni ond yn gadael i rywun gysylltu â ni neu gyfathrebu â ni mewn ffyrdd penodol.

Cyfyngu ar gysylltiad



Os ydy aelod o'n staff yn teimlo bod rhywun yn **cam-drin** neu'n **ymosodol** maen nhw'n gallu penderfynu ar unwaith i **gyfyngu ar gysylltiad**.

Cam-drin ydy pan fydd rhywun yn eich anafu neu eich trin yn wael.



Pan nad ydy e'n fater brys, os ydyn ni'n penderfynu **cyfyngu ar gysylltiad** fe fyddwn ni yn ysgrifennu atoch chi i ddweud wrthy ch chi beth rydyn ni wedi'i benderfynu.



Fe fyddwn ni'n ceisio gadael un ffordd o leiaf i chi gysylltu â ni. Ond mewn rhai achosion difrifol, efallai y byddwn ni'n gofyn i chi gysylltu â ni drwy berson neu sefydliad arall.




Os ydyn ni wedi datrys **cwyn** ond eich bod chi'n parhau i gysylltu â ni am yr un peth, efallai y byddwn ni'n dweud na fyddwn ni'n derbyn eich **cwyn** eto.



Os ydy rhywun yn **cam-drin** neu'n **ymosodol**, efallai y byddwn ni'n rhoi gwybod i'r heddlu am hyn.



Os bydd rhywun yn anafu neu'n bygwth anafu rhywun, fe fyddwn ni'n rhoi gwybod i'r heddlu.



Os bydd rhywun yn anfon llythyr neu e-bost sydd yn **sarhaus** i ni, fe fyddwn ni yn dweud wrthyn nhw na fyddwn ni'n eu helpu os byddan nhw yn parhau i fod yn **ymosodol**.



Fe fyddwn ni'n dod â galwadau ffôn i ben os bydd rhywun yn **ymosodol** neu'n **sarhaus** ar y ffôn.

Pan fydd rhywun yn anghytuno



Pan fydd gan rywun **gysylltiad cyfyngedig** â ni, efallai y byddan nhw yn anghytuno â'n penderfyniad i wneud hynny.



Maen nhw'n gallu gofyn i ni ailfeddwl am ein penderfyniad i **gyfyngu ar gysylltiad**. Fe fydd aelod arall o'n staff yn edrych ar beth sydd wedi digwydd ac yn gwneud penderfyniad.



Fe fyddwn ni'n ysgrifennu atoch i ddweud wrthy ch chi os byddwn ni'n meddwl:



- Ein bod ni wedi gwneud y penderfyniad cywir ac fe fyddwn ni'n **cyfyngu ar gysylltiad** yn yr un ffordd.
- Bod ein penderfyniad cyntaf yn anghywir a beth ydy'r penderfyniad newydd.

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf



Pan fyddwn ni'n penderfynu **cyfyngu ar gysylltiad**, fe fyddwn ni'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am beth sy'n digwydd.



Os bydd rhywun yn stopio eu hymddygiad **annerbyniol**, efallai y byddwn ni'n penderfynu rhoi'r gorau i **gyfyngu ar gysylltiad**.

Cadw gwybodaeth



Rydyn ni'n cadw gwybodaeth am yr holl ymddygiad **annerbyniol** a phan fyddwn ni'n penderfynu **cyfyngu ar gysylltiad**.



Rydych chi'n gallu ein ffonio ar 0345 6033 221 a gofyn am siarad â'n Swyddog Llywodraethiant.

Cysylltwch â ni



E-bost: post@cyg-wlc.cymru



Ffôn: 0345 6033 221



Post: Comisiynydd y Gymraeg
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH



X: [@ComyGymraeg](https://twitter.com/ComyGymraeg)



Instagram: [@ComyGymraeg](https://www.instagram.com/ComyGymraeg)



Facebook: [ComisiynyddyGymraeg](https://www.facebook.com/ComisiynyddyGymraeg)



LinkedIn: [Comisiynydd y Gymraeg/ Welsh Language Commissioner](https://www.linkedin.com/company/comisiynydd-y-gymraeg-welsh-language-commissioner)



Gwefan:
www.comisiynyddygygymraeg.cymru

Geiriau anodd

Annerbyniol

Mae annerbyniol yn meddwl rhywbeth sydd yn anghywir ac na ddylid ei wneud.

Cam-drin

Cam-drin ydy pan fydd rhywun yn eich anafu neu'n eich trin yn wael.

Cwyn

Cwyn ydy pan fyddwch chi'n dweud wrth sefydliad neu berson eich bod yn credu eu bod wedi gwneud rhywbeth o'i le.

Cyfyngu ar gysylltiad

Cyfyngu ar gyswllt ydy pan fyddwn ni ond yn gadael i rywun gysylltu â ni neu gyfathrebu â ni mewn ffyrdd penodol.

Sarhaus

Mae bod yn sarhaus yn meddwl peidio dangos parch at rywun.

Ymosodol

Mae ymosodol yn meddwl pan fydd rhywun yn barod neu'n debygol o fod yn dreisgar oherwydd dicter.